Ffon: 01639 883570

# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

Awdurdodau Cyfansoddol

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL NEATH PORT TALBOT**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y BON TAR OGWR**

## AMLOSGFA MARGAM

**Clerc:**
**CRAIG GRIFFITHS**
**CYFREITHIWR**
**Canolfan Ddinesig, Port Talbot**

| Swyddog Technegol: | Canolwr Meddygol: | Trysorydd: |
|---|---|---|
| **N.Pearce**<br>**The Quays**<br>**Brunel Way Briton Ferry**<br>**Castell-nedd** | **Dr J.W.Burridge**<br>**M.B. B.S.**<br>**Mount Surgery,**<br>**Taibach** | **H.Jenkins IPFA**<br>**Canolfan**<br>**Ddinesig**<br>**Port Talbot** |

**CYFARFOD O'R CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM**

**DYDD IAU, 14 MAWRTH 2024**

**12.00 pm**

**CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS**

<u>Rhan 1</u>

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 3 - 4)*

3. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100BA(6)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

4. Mynediad i gyfarfodydd
   Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd

o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

Rhan 2

Ar gyfer penderfyniad:

5. Ailstrwythuro rheolwyr yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot a dynodi Clerc Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam (Esempt o dan Baragraff 12 a 13) *(Tudalennau 5 - 10)*

Canolfan Ddinesig
PORT TALBOT 6 Mawrth 2024

**Aelodaeth ar y cyd Pwyllgor:**

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Neath Port Talbot:

Cynghorwyr: W.Carpenter, A.Dacey, R.G.Jones, S.Jones a/ac E.V.Latham

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

Cynghorwyr: P.Davies a/ac M.Kearn

# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

**(Yn gweithredu gydag Awdurdod Cyflawn)**

| **Aelodau a oedd yn bresennol:** | **16 Chwefror 2024** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd E Latham** |
| **Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:** | **Y Cynghorwyr** A.Dacey, R.G.Jones ac S.Jones |
| **Yn cynrychioli Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** | **Y Cynghorydd** P.Davies ac M.Kearn |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths, H.Jones, C.Phillips, C.Langdon ac N.Jones |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

3. **FFIOEDD AR GYFER GWASANAETHAU YN AMLOSGFA MARGAM**

Rhoddodd Swyddogion drosolwg o'r adroddiad am ffioedd ar gyfer gwasanaeth dydd Sadwrn yn Amlosgfa Margam.

Eglurodd swyddogion y bu cynnydd cyson cyffredinol yn y gwasanaeth dros y blynyddoedd, ac mae'r ffigurau diweddaraf dros 2023/24, o fis Ebrill i fis Rhagfyr yn dangos y cafwyd 23 o wasanaethau.

Gofynnodd swyddogion i'r aelodau a oeddent am gadw'r ffi ar gyfer dydd Sadwrn ar y gyfradd gyfredol, cael gwared arni neu ei newid (ei chynyddu neu ei gostwng).

**Penderfynwyd:** bod y Cyd-bwyllgor yn lleihau'r ffi ychwanegol ar gyfer Sadyrnau i £175 a chytuno ar gyfyngu nifer y gwasanaethau dydd Sadwrn i dri, yn amodol ar adolygiad ymhen chwe mis.

## 4. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH A NODWYD YNG NGHYNLLUN BUSNES LEFEL GWASANAETH AMLOSGFA MARGAM 2023/2024

Swyddogion fod gwall yn nheitl yr adroddiad, mae'n ymwneud ag adroddiad a wnaed gan ffederasiwn yr awdurdodau claddu ac amlosgi.

Eglurodd swyddogion y byddai'r adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor yn yr ychydig fisoedd nesaf; mae hyn yn ymwneud â Faithful and Gould ac i roi diweddariad i'r pwyllgor ar y mathau o faterion sy'n cael eu hystyried a bydd wedyn yn penderfynu ar y cyd fel pwyllgor sut i symud ymlaen â hyn.

Gofynnodd yr aelodau a allent gael adroddiad wedi'i ddiweddaru ar y cynlluniau gwaith (adnewyddu) yr oedd y pwyllgor wedi'u hawdurdodi a'u cymeradwyo, ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd:** bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 5. FFIGURAU AMLOSGI AR GYFER MIS GORFFENNAF 2023 I FIS RHAGFYR 2023

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad ar y ffigurau amlosgi ar gyfer mis Gorffennaf 2023 i fis Rhagfyr 2023 gan dynnu sylw at y ffaith bod y ffigurau yr un peth, ac eithrio ar gyfer mis Gorffennaf 2023 pan gafwyd 157 o amlosgiadau.

**Penderfyniad**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Yn sgil paragraff(au) 12, 13 yn Rhan 4 Atodlen 12A%  Deddf Llywodraeth Leol 1972

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag